MATHIAS, WILLIAM JAMES (1934-1992), athro a chyfansoddwr

Enw: William James Mathias
Dyddiad geni: 1934
Dyddiad marw: 1992
Priod: Margaret Yvonne Mathias (née Collins)
Plentyn: Rhiannon Mathias
Rhiant: Marian Mathias (née Evans)
Rhiant: James Hughes Mathias
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: athro a chyfansoddwr
Maes gweithgaredd: Addysg; Cerddoriaeth
Awdur: Rhidian Griffiths

Ganed William Mathias ar 1 Tachwedd 1934 yn Hendy-gwyn-ar-Daf. Roedd ei dad, James Hughes Mathias (1893-1969), yn athro hanes yn Ysgol Ramadeg Hendy-gwyn a'i fam Marian (ganwyd Evans, 1896-1980) yn organyddes ac yn bianyddes. Yn chwech oed dechreuodd gael gwersi piano gan David Lloyd Phillips, Llanfyrnach, ac iddo ef y cyflwynodd Mathias ei sonata i'r piano, op.23. Yn 1952 aeth i Goleg Prifysgol Cymru Aberystwyth i astudio wrth draed Ian Parrott. Graddiodd yn 1956 a chafodd ysgoloriaeth agored i'r Academi Gerdd Frenhinol i astudio cyfansoddi gyda Lennox Berkeley a phiano gyda Peter Katin. Penodwyd ef yn ddarlithydd mewn cerddoriaeth yng Ngholeg y Brifysgol ym Mangor yn 1959, a bu yno nes symud i Brifysgol Caeredin yn 1968. Dychwelodd i Gymru yn 1969 wedi marwolaeth ei dad, ac yn 1970 fe'i penodwyd yn Athro Cerdd yng Ngholeg y Brifysgol Bangor, swydd a ddaliodd tan ei ymddeoliad yn 1987. Etholwyd ef yn Gymrawd yr Academi Gerdd Frenhinol (FRAM) yn 1965 a derbyniodd radd D. Mus. (Cymru) yn 1966. Sefydlodd yl Gerdd Gogledd Cymru yn Llanelwy yn 1972 a bu'n gyfarwyddwr cerdd iddi tan ei farw. Derbyniodd Wobr Gyfansoddi Cymdeithas Bax yn 1968 a bu'n llywydd Cymdeithas Gorfforedig y Cerddorion, 1990-1.

Yr oedd William Mathias yn un o gyfansoddwyr amlycaf Cymru yn yr ugeinfed ganrif. Cafodd lwyddiant cynnar gyda pherfformiad o'i Sonata i'r clarinet yng Ng yl Gerdd Cheltenham yn 1957, a dwy flynedd yn ddiweddarch clywyd ei *Berceuse* i gerddorfa yn y Festival Hall yn Llundain. Yn ystod y 1960au datblygodd yn sylweddol fel cyfansoddwr a darganfod ei lais unigryw ei hun, gan gyfansoddi ym mhob ffurf ymron ac ysgrifennu gweithiau cysegredig a seciwlar. Llwyddodd i greu cerddoriaeth a oedd yn nodedig am ei rhithmau bywiog ac am ei hapêl barod i gynulleidfaoedd. Dywedwyd amdano ei fod wedi llwyddo i ddod â dylanwadau Ewropeaidd cyfoes i Gymru heb golli ei lais unigryw ei hun.

Ymhlith ei weithiau corawl mwyaf adnabyddus y mae *St Teilo* (1962), *This World's Joie* (1974), *Lux Aeterna* (1982) a *World's Fire* (1989). Cyfansoddodd un opera lawn, sef *The Servants*, i libretto gan yr awdur Iris Murdoch. Comisiynwyd ei anthem 'Let the people praise thee, O Lord' ar gyfer priodas Tywysog Cymru yn 1981. Yn ystod y 1970au lluniodd gyfres o weithiau i gerddorfa a alwodd yn 'dirluniau'r meddwl', sef *Laudi* (1973), *Vistas* (1975), *Helios* (1977) a *Requiescat* (1977). Cyfansoddodd dair simffoni, gan adael pedwaredd heb ei gorffen adeg ei farw.

Priodod ym Medi 1959 â (Margaret) Yvonne Collins o Aberdâr, a chawsant un ferch, Rhiannon (ganwyd1968). Bu farw ym Mhorthaethwy ar 29 Gorffennaf 1992. Trosglwyddwyd ei lawysgrifau i ofal Llyfrgell Genedlaethol Cymru.

Awdur

Rhidian Griffiths

Ffynonellau

Malcolm Boyd, *William Mathias* (Caerdydd 1978)

Geraint Lewis, William (James) Mathias, Grove Music Online

John G. Slawson, 'The choral music of William Mathias' (University of Cincinnati, D.M.A., 1985)

ODNB

Darllen Pellach

William Mathias (1934-92), gwefan T Cerdd, gwelwyd 7 Mawrth 2018

Helen C. Thomas, Mathias, William James (1934–1992), *Oxford Dictionary of National Biography*

Erthygl Wicipedia: William Mathias

Dolenni Ychwanegol

Archifau LlGC: William Mathias Music Manuscripts and Papers

VIAF: 29718727

Wikidata: Q740632

Dyddiad cyhoeddi: 2014-06-03

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu